# Y Fframwaith hunan-adolygu

## Elfen 6 (Canllawiau)

# Ehangu cyfleoedd ar gyfer dysgu

Mae'r canllaw yma i'r fframwaith hunan-adolygu yn cynnwys yr holl ddatganiadau y byddwch yn barnu eich ysgol yn eu herbyn ar gyfer Elfen 6. Mae hefyd yn cynnwys cwestiynau ac yn awgrymu ffynonellau o dystiolaeth y gallwch eu hystyried fel cefnogaeth i'ch barnau. Mae fersiwn arall o'r ddogfen hon ar gael ar ffurf ffeil Word, lle mae'r adran gwestiynau wedi ei gyfnewid am ffrâm destun ar gyfer cofnodi eich tystiolaeth eich hunan. Efallai yr hoffech ddefnyddio'r ddogfen honno cyn bwydo'r wybodaeth i mewn i'r system ar-lein, ond mae'n hanfodol eich bod yn cwblhau'r hunan-adolygiad ar-lein cyn gwneud cais i gael eich asesu ar gyfer y Marc TGCh.

Gellir defnyddio'r canllaw yma i'r fframwaith hunan-adolygu ochr yn ochr â'r disgrifiadau lefel yn Elfen 6 gan Becta i'ch helpu i wneud penderfyniad ynglŷn â'ch sefyllfa yn natblygiad TGCh ar gyfer yr elfen 'Ehangu cyfleoedd ar gyfer dysgu'.

Mae Becta yn argymell yn gryf y dylech ddefnyddio'r offer hunan-adolygu ar-lein yn hytrach na'r fersiwn papur.

Ionawr 2009

www.becta.org.uk/schools/selfreviewframework

# Elfen 6 - Ehangu cyfleoedd ar gyfer dysgu

## 6a Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

Mae'r llinyn hwn yn ymwneud ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gan yr holl staff, yn cynnwys uwch reolwyr, o'r cyfleoedd ar gyfer dysgu estynedig gyda TGCh tu hwnt i'r ysgol. Er nad yw'r holl ysgolion yn gallu darparu amrediad llawn o gyfleoedd estynedig ar gyfer dysgu, disgwylir iddynt rywfodd neu'i gilydd i ehangu eu darpariaeth tu hwnt i gysyniad traddodiadol yr ysgol, o bosib mewn partneriaeth gydag ysgolion lleol, y gymuned a sefydliadau eraill. Dylai ysgolion gydnabod a dathlu'r cyfleoedd ar gyfer disgyblion i ehangu eu dysgu gyda TGCh sydd ar gael o ffynonellau eraill heblaw'r ysgol. Mae'r agenda yn un eang, ac yn mynd tu hwnt y materion perthynol i TGCh. Fodd bynnag, mae TGCh yn elfen allweddol yng nghyflawniad llwyddiannus o gyfleoedd estynedig ar gyfer dysgu a dyna pam y cynhwysir yn y fframwaith Hunan adolygiad TGCh. Dylai pob ysgol fod yn ymwybodol o'r materion hyd yn oed os ydy'r cyflawniad ar hyn o bryd ar gyfnod cynnar datblygiad.

| 6a-1 Dealltwriaeth | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae ein dealltwriaeth am sut y gall TGCh ehangu cyfleoedd dysgu ar gyfer disgyblion ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| yn | gyfyngedig | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | eang |
| yn cael ei gymhwyso | i ychydig staff | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | i'r holl staff |
| yn rhan anhepgor o godi safonau | i ychydig staff | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | i'r holl staff |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Pa gyfran o'r staff yn yr ysgol sy'n deall sut mae TGCh yn gallu cefnogi amcanion ehangach yr ysgol o ehangu cyfleoedd addysgu tu hwnt i'r ysgol?
- Ydy'r staff yn deall fod ehangu cyrhaeddiad yr ysgol a gwella amrediad cyfleoedd dysgu yn gallu bod yn elfen allweddol i godi safonau?
- Pa mor dda mae staff yn deall fod TGCh yn hwylusydd arwyddocaol mewn perthynas â hyn?
- I ba raddau mae staff yn ymwybodol o'r prif faterion a'r disgwyliadau perthynol i ehangu cyfleoedd addysgu gyda TGCh?

| 6a-2 Disgyblion a theuluoedd | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae gwybodaeth am fynediad ein disgyblion a'u teulu i TGCh ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| yn cael ei gasglu | byth | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn rheolaidd |
| yn defnyddio arolygon neu ymchwil yn cynnwys | dim disgyblion | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yr holl ddisgyblion |
| yn cael ei ystyried wrth gynllunio gwaith | byth | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn aml |
| yn ein harwain i ddarparu mynediad amgen i sicrhau cyfiawnder | anfynych | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn aml |
| yn ein galluogi i adnabod ac ymateb i anghenion dysgu TGCh disgyblion a theuluoedd | byth | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | rhyngweithio |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Ydy'r ysgol yn cyflawni ymchwil rheolaidd i ddarparu gwybodaeth ddibynadwy ar fynediad a defnydd disgyblion o TGCh tu hwnt i'r ysgol?
- Ydy'r ysgol yn deall fod mynediad effeithiol at TGCh yn mynd tu draw i ateb y cwestiwn syml "Oes gan y disgyblion gyfrifiadur yn eu cartref?" ac yn cynnwys materion perthynol i agwedd rhieni / gofalwyr at waith disgybl gartref, ymwneud rhieni / gofalwyr yn addysgu eu plant, a'r ddarpariaeth o gyfleusterau addas ar gyfer gweithio tu hwnt i'r ysgol?
- Sut mae'r ysgol yn defnyddio gwybodaeth am fynediad at TGCh tu allan (fas) i'r ysgol wrth gynllunio addysgu?
- I ba raddau mae staff yn deall mater ecwiti sy'n gysylltiedig â TGCh, yn cynnwys materion penodol sy'n berthnasol i'w cyd-destun lleol?

## Elfen 6 - Ehangu cyfleoedd ar gyfer dysgu

### 6a Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

| 6a-3 Sefydliadau cymunedol a phartneriaid | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae ein cyswllt gyda'n sefydliadau cymunedol a phartneriaid wedi ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| peri partneriaethau sy'n | anweithredol | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | gryf |
| chwilio ffyrdd iddynt gefnogi dysgu disgyblion gyda, ac am TGCh | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | arwyddocaol |
| peri gweithgareddau TGCh cysylltiol | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn eang |
| ein galluogi i ymateb i'w anghenion TGCh | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn llawn |
| cael effaith ar ddysgu TGCh ein disgyblion | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | arwyddocaol |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Ydy'r ysgol yn deall sut mae'r gymuned a sefydliadau partner yn gallu gwneud cyfraniad i addysgu gyda, ac am, TGCh?
- Ydy'r cwricwlwm yn ystyried y cyfraniad mae'r gymuned yn gallu gwneud i ehangu cyfleoedd ar gyfer addysgu gyda TGCh?
- I ba raddau mae staff yn deall y buddiannau o weithio gyda'r gymuned a sefydliadau partner, adnodd allweddol yn narpariaeth amrediad o gyfleoedd addysgu estynedig gyda TGCh?
- Oes partneriaethau wedi eu sefydlu i sicrhau buddiannau ar gyfer y ddwy ysgol a'r gymuned mewn perthynas â TGCh?
- Ydy'r ysgol wedi asesu anghenion TGCh y gymdeithas a phartneriaid, a lle mae'n briodol ystyried sut y gallai ymateb i'r rhain?

**Tystiolaeth:**
Cynllun gwella ysgol. Polisi'r ysgol ar gyfer TGCh, yn arbennig fel mae'n perthnasu i gefnogi mentrau ysgol gyfan eraill. Polisi'r ysgol ar gyfer ehangu addysgu. Polisi'r ysgol ar gynhwysiad. Polisïau defnydd derbyniol yr ysgol. Trafodaethau gyda staff am eu dealltwriaeth o'r materion. Trafodaethau gyda sefydliadau eraill, grwpiau cymunedol, rhieni/ gofalwyr ac asiantaethau eraill. Y trefniadau sydd yn eu lle ar gyfer casglu a defnyddio tystiolaeth am fynediad tu allan(fas) i'r ysgol, yn cynnwys mynediad at gyfrifiadur gartref. Tystiolaeth o ddealltwriaeth o faterion ecwiti gan yr uwch reolwyr staff. Tystiolaeth o ymgynghoriad yn y gymuned ac o bartneriaethau sydd wedi eu hystyried neu eu sefydlu. Polisi gosod yr ysgol. Tystiolaeth o ddarpariaeth ar ôl ysgol a mynediad at adnoddau TGCh. Cynlluniau gwaith y cwricwlwm. Cofnodion cyfarfodydd llywodraethwyr. Cytundebau defnydd derbyniol i rieni/ gofalwyr.

## Elfen 6 - Ehangu cyfleoedd ar gyfer dysgu

### 6b Cynllunio a gweithredu

Mae'r llinyn hwn yn ymwneud ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gan yr holl staff, yn cynnwys uwch reolwyr, o'r cyfleoedd ar gyfer dysgu estynedig gyda TGCh tu hwnt i'r ysgol. Er nad yw'r holl ysgolion yn gallu darparu amrediad llawn o gyfleoedd estynedig ar gyfer dysgu, disgwylir iddynt rywfodd neu'i gilydd i ehangu eu darpariaeth tu hwnt i gysyniad traddodiadol yr ysgol, o bosib mewn partneriaeth gydag ysgolion lleol, y gymuned a sefydliadau eraill. Dylai ysgolion gydnabod a dathlu'r cyfleoedd ar gyfer disgyblion i ehangu eu dysgu gyda TGCh sydd ar gael o ffynonellau eraill heblaw'r ysgol. Mae'r agenda yn un eang, ac yn mynd tu hwnt y materion perthynol i TGCh. Fodd bynnag, mae TGCh yn elfen allweddol yng nghyflawniad llwyddiannus o gyfleoedd estynedig ar gyfer dysgu a dyna pam y cynhwysir yn y fframwaith Hunan adolygiad TGCh. Dylai pob ysgol fod yn ymwybodol o'r materion hyd yn oed os ydy'r cyflawniad ar hyn o bryd ar gyfnod cynnar datblygiad.

| 6b-1 Arweiniad ar gyfer ehangu dysgu | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae ein harweiniad o ehangu dysgu drwy TGCh ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| Arweiniad ar gyfer ehangu dysgu: Mae ein harweiniad o ehangu dysgu drwy TGCh | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | yn llawn |
| yn cael ei gyflawni | yn achlysurol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | yn systematig |
| yn cynnwys llywodraethwyr | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | yn eang |
| yn cynnwys disgyblion | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | yn eang |
| yn cynnwys rhieni a gofalwyr | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | yn eang |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- bwy y rhoddwyd y cyfrifoldeb am hybu ac arwain y weledigaeth ar ehangu addysgu?
- Pa mor dda y cynlluniwyd ac y cyd-gysylltwyd camau'r ysgol?
- Oes yna ymdriniaeth ysgol gyfan ddiffuant neu dim ond camau gan rai unigolion ymroddedig?
- Sut mae llywodraethwyr, disgyblion rhieni / gofalwyr yn cyfrannu?
- Pa mor annatod i gynllunio'r ysgol ar gyfer TGCh y mae'r cysyniad o ehangu cyfleoedd addysgu?

| 6b-2 Disgyblion | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae defnydd gwirioneddol ein disgyblion o TGCh ar gyfer dysgu y tu hwnt i'r ysgol ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| yn cael ei annog a'i hyrwyddo gan | neb o'r staff | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | yr holl staff |
| wedi ei gynllunio gan | neb o'r staff | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | yr holl staff |
| yn cael ei werthfawrogi a'i glodfori gan | neb o'r staff | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | yr holl staff |
| yn cael ei alluogi drwy fynediad teg i TGCh ar gyfer yr holl ddisgyblion | byth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | bob amser |
| yn ehangu eu dysgu | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | arwyddocaol |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Pa mor effeithiol y mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion i ddefnyddio TGCh tu hwnt i'r ysgol i ehangu eu haddysgu?
- Pa mor gadarnhaol y mae athrawon yn ymateb pan gyflwyna disgyblion waith TGCh a gyflawnwyd tu allan/fas i'r ysgol?
- Pa drefniadau sydd mewn llaw i sicrhau fod yr holl ddisgyblion yn gallu dysgu gyda TGCh tu hwnt i'r ysgol?
- Ydy gwaith a gyflawnwyd tu allan/ fas i'r ysgol yn cael ei integreiddio'n effeithiol gyda gwaith ysgol seiliedig?
- Sut mae'r ysgol yn ymateb i gyfleoedd newydd a rhai sy'n ymddangos ar gyfer addysgu gyda TGCh tu hwnt i'r ysgol?

## Elfen 6 - Ehangu cyfleoedd ar gyfer dysgu

### 6b Cynllunio a gweithredu

| 6b-3 Teuluoedd | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rydym yn cynnwys teuluoedd yn nysgu TGCh eu disgyblion drwy ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| ddarparu amrywiaeth o weithgareddau dysgu TGCh sy'n | anfynych | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn eang |
| helpu rhieni i gefnogi dysgu eu plant tu allan i'r ysgol | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn eang |
| gyfathrebu gyda rhieni yn electronig | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn rheolaidd |
| ddarparu mynediad electronig dan reolaeth i ddata eu plant | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn eang |
| ddeialog a chyngor ar, a darparu'r rhieni gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion e-ddiogelwch | minimal | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn rheolaidd |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Pa mor effeithiol y mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion i ddefnyddio TGCh tu hwnt i'r ysgol i ehangu eu haddysgu?
- Pa mor gadarnhaol y mae athrawon yn ymateb pan gyflwyna disgyblion waith TGCh a gyflawnwyd tu allan/fas i'r ysgol?
- Pa drefniadau sydd mewn llaw i sicrhau fod yr holl ddisgyblion yn gallu dysgu gyda TGCh tu hwnt i'r ysgol?
- Ydy gwaith a gyflawnwyd tu allan/ fas i'r ysgol yn cael ei integreiddio'n effeithiol gyda gwaith ysgol seiliedig?
- Sut mae'r ysgol yn ymateb i gyfleoedd newydd a rhai sy'n ymddangos ar gyfer addysgu gyda TGCh tu hwnt i'r ysgol?

| 6b-4 Gwerthusiad | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae gwerthuso effaith dysgu tu hwnt i'n hysgol ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| yn cael ei gyflawni | byth | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn aml |
| yn cael ei gyflawni | arwynebol | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | systematig |
| yn canolbwyntio ar | y nifer sy'n ei ddefnyddio | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | ddeilliannau disgyblion |
| cyfrannu at ddysgu, addysgu, a datblygiadau'r dyfodol | byth | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | bob amser |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Sut mae'r ysgol yn monitro ac yn gwerthuso effaith addysgu estynedig gyda TGCh?
- Pa mor effeithiol mae'r ysgol yn deall sut mae addysgu wedi cael ei ymestyn drwy weithgareddau gyda TGCh tu hwnt i'r ysgol?
- Sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i gyfrannu at gynllunio'r dyfodol a datblygiadau?

**Tystiolaeth:**
Cynllun gwelliant ysgol. Polisi'r ysgol ar TGCh, yn arbennig fel mae'n perthnasu i gefnogi mentrau ysgol gyfan eraill. Polisi'r ysgol at ehangu addysgu a threfniadau rheolaeth ar gyfer hyn. Polisïau a chanllawiau o fewn pwnc unigol/ feysydd cwricwlwm sy'n adnabod sut y dylai athrawon ymateb i waith a ymgymerir tu allan(fas) i'r ysgol. Ymdriniaeth yr ysgol at ddarparu cyngor ar gyfer rhieni/ gofalwyr ar faterion e-ddiogelwch a sicrwydd. Ymdriniaeth yr ysgol at faterion ecwiti a'r trefniadau a wnaed i sicrhau nad oes unrhyw ddisgybl yn cael ei gyfyngu gan ddiffyg mynediad at TGCh gartref. Tystiolaeth gan deuluoedd am sut mae addysgu gartref wedi ei wella gan ymdriniaeth yr ysgol. Tystiolaeth o ymwneud â grwpiau cymunedol a sefydliadau allanol

eraill. Tystiolaeth o brosesau gwerthuso a'u defnydd ar gyfer cynllunio ar lefelau ysgol gyfan, a phwnc/ adran. Cofnodion cyfarfodydd llywodraethwyr. Trafodaethau gyda disgyblion, rhieni/ gofalwyr, grwpiau cymunedol a phartneriaid. Cynlluniau/ polisïau benthyca offer.